**Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2016-17**

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2014-15/2015-16** | **Camau Gweithredu 2016-17**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YH (Ymgynghorydd Her)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd<br><br>Tudalen 8 | • Cynnal gweithdy tymhorol i gydlynwyr AG (YH)<br>• Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu (ALl)<br>• Craffu ar adroddiadau hunan arfarnu ysgolion a rhannu'r prif negeseuon yn yr adroddiad blynyddol. | • Canllawiau hunan arfarnu<br>• Amserlen a threfn hunan arfarnu.<br>• Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion<br>• Cofnodion CYSAG Ynys Môn | • Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2017.<br>• CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Dyfodol Llwyddiannus (Argymhellion Donaldson) ac Addysg Grefyddol<br><br>Tudalen 12 | • Cynrychioli Ynys Môn mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YH + AC)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu yn ymateb i'r Maes Llafur Cytun ag egwyddorion 'Dyfodol Llwyddiannus' (YH+ALl+AC) | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Cefnogi athrawon uwchradd wrth gyflwyno manyleb TGAU newydd.<br><br>Tudalen 10 | • Cefnogi athrawon uwchradd mewn unrhyw trafodaethau gyda CBAC neu Cymwysterau Cymru.<br>• Cefnogi gwaith Arweinydd Rhanbarthol AG TGAU (Mefys Jones)<br>• Annog pob adran TGAU AG i fanteisio ar y cyfleoedd I gyfrannu at y cydweithio lleol (Gwynedd a Môn) a rhanbarthol. | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Athrawon AG ac ymgeiswyr AG TGAU yn teimlo'n hyderus wrth wynebu'r manyleb newydd.<br>• Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion uwchradd yn nodi bod safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer CA4 yn dda neu'n well;<br>• Canlyniadau TGAU Astudiaethau Crefyddol yn gyson dda neu'n well. | |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd<br><br>Tudalen 13 | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Ynys Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |